

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL UNDEBAU LLAFUR

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Undebau Llafur (y “Bil”) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 15 Gorffennaf 2015. Gellir cael copi o'r Bil yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2015-16/tradeunion.html>

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud mai ei hamcanion polisi eang ar gyfer y Bil yw cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio undebau llafur ac i amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus hanfodol rhag streiciau. Mae wedi dweud hefyd y byddai'r Bil yn cyflwyno mwy o dryloywder i weithgareddau undebau llafur, a chynyddu goruchwyliaeth annibynnol o'r ffordd y mae undebau llafur yn cynnal eu busnes.
4. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn ymdrin â'r canlynol:
 - Trothwyon pleidlais dros weithredu diwydiannol: gofyniad i 50% bleidleisio ar gyfer pob pleidlais ar weithredu diwydiannol, a throthwy ychwanegol o 40% o gefnogaeth i weithredu'n ddiwydiannol gan bob aelod sy'n gymwys i bleidleisio yn y sectorau iechyd, addysg, tân, trafnidiaeth, diogelwch ffiniau a dadgomisiynu niwclear allweddol
 - Gofynion gwybodaeth yn ymwneud â gweithredu diwydiannol: gofynion i rai mathau o wybodaeth i gael ei chynnwys ar bapurau pleidleisio, i wybodaeth gael ei darparu i aelodau ac eraill am ganlyniad pleidlais, ac i wybodaeth am weithredu diwydiannol gael ei darparu i'r Swyddog Ardystio
 - Darpariaeth am amseriad a hyd gweithredu diwydiannol
 - Darpariaeth am oruchwyllo picedu gan undebau
 - Rhoi'r dewis i aelodau undeb a ydynt am gyfrannu at gronfeydd gwleidyddol, a ffurflenni blynyddol undebau i gynnwys manylion gwariant gwleidyddol

- Darpariaethau sy'n ymwneud ag amser o'r gwaith â thâl i swyddogion undebau llafur, a gwahardd didynnu tanysgrifiadau undebau o gyflogau, yn y sector cyhoeddus
- Gwella rôl reoleiddiol y Swyddog Ardystio, sef y corff sy'n gyfrifol am swyddogaethau statudol sy'n ymwneud ag undebau llafur a chymdeithasau cyflogwyr.

Darpariaethau yn y Bil y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29

5. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer cymalau 3, 12, 13 a 14 y Bil fel y'u cyflwynwyd yn yr ail Dŷ (Tŷ'r Arglwyddi) ar 11 Tachwedd, 2015 (HL Bill 74 2015-16). Mae'r holl darpariaethau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Cymal 3: trothwy o 40% o gefnogaeth gyffredinol i weithredu'n ddiwydiannol mewn meysydd allweddol yn y sector cyhoeddus

6. Mae cymal 3 yn gosod trothwy o 40% o gefnogaeth gan yr aelodaeth yn gyffredinol i weithredu'n ddiwydiannol mewn meysydd gwasanaeth allweddol megis gwasanaethau iechyd, addysg y rhai o dan 17 oed, gwasanaethau tân a gwasanaethau trafndiaeth.
7. Caiff hyn ei gyflawni trwy ddiwygio adran 226 o Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992, fel bod gofyniad trothwy ychwanegol (bod o leiaf 40% o'r rhai a oedd â hawl i bleidleisio yn y bleidlais wedi ateb "le" i'r cwestiwn) yn gymwys lle mae mwyafrif y rhai sydd â hawl i bleidleisio yn y bleidlais yn ymwneud â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig fel arfer, neu weithgareddau ategol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig.
8. Bydd gwasanaethau cyhoeddus pwysig yn cael ei restru mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a rhaid iddynt fod o fewn un o chwe chategori, yn cynnwys y categorïau a bennir o dan baragraff 6 uchod. Diben y ddarpariaeth, fel yr eglurir gan Lywodraeth y DU yn Nodiadau Esboniadol y Bil, yw amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus hanfodol rhag streiciau.
9. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddarpariaeth hon o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i'r graddau y mae'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol a chorfforol o dan baragraff 5 (Addysg a hyfforddiant); gwasanaethau tân ac achub o dan baragraff 7 (Gwasanaethau tân ac achub a diogelwch tân); darparu gwasanaethau iechyd, gan gynnwys gwasanaethau meddygol, deintyddol, offthalmig, fferyllo a chyfleusterau a gwasanaethau ategol, a threfnu ac ariannu'r gwasanaeth iechyd gwladol, o dan baragraff 9 (Iechyd a gwasanaethau iechyd); gwasanaethau a chyfleusterau trafndiaeth o dan

baragraff 10 (Priffyrdd a thrafnidiaeth), yn Rhan 1 o Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cymalau 12 ac 13: amser o'r gwaith â thâl i gynrychiolwyr undebau llafur

10. Mae cymalau 12 a 13 yn ymestyn y gofynion adrodd ar gyfer amser o'r gwaith â thâl ar gyfer undebau llafur sy'n gymwys i'r Gwasanaeth Sifil a'r sector cyhoeddus ehangach ar hyn o bryd, ac sy'n galluogi Gweinidogion y DU i osod cyfyngiadau ar amser o'r gwaith â thâl ar gyfer undebau llafur ar draws y sector cyhoeddus. Mae'r cymalau hyn yn gymwys i'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

11. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag amrywiaeth o bynciau yn Atodlen 7, Rhan 1 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

12. Mae'r pynciau yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) -

Addysg, hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol a chorfforol o dan baragraff 5 (Addysg a hyfforddiant); gwasanaethau tân ac achub o dan baragraff 7 (Gwasanaethau tân ac achub a diogelwch tân); darparu gwasanaethau iechyd, gan gynnwys gwasanaethau meddygol, deintyddol, offthalmig, fferyllol a chyfleusterau a gwasanaethau ategol, a threfnu ac ariannu'r gwasanaeth iechyd gwladol, o dan baragraff 9 (Iechyd a gwasanaethau iechyd); gwasanaethau a chyfleusterau trafndiaeth o dan baragraff 10 (Priffyrdd a thrafnidiaeth), Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion o dan baragraff 12 (Llywodraeth leol) yn Rhan 1 o Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

13. Byddai'r darpariaethau, felly, yn berthnasol i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n ymwneud â'r pynciau hyn yn cynnwys: Gwasanaethau Tân ac Achub, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Awdurdodau Lleol. Nid yw hon yn rhestr gyflawn.

Cymal 14: Gwahardd didynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau yn y sector cyhoeddus

14. Diwygiwyd y Bil yn ystod y cam Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin (Cymal 11 newydd a gyflwynwyd gan Nick Boles AS, y Gweinidog Gwladol dros Sgiliau ar 20 Hydref) i gynnwys darpariaeth i wahardd cyflogwyr y sector cyhoeddus, a bennir gan reoliadau, rhag didynnu tanysgrifiadau undebau llafur o gyflogau gweithwyr a'u hanfon at yr undebau dan sylw ('check-off

yw'r term Saesneg cyffredin am hyn). Mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnwys fel cymal 14 o'r Bil a gyflwynwyd i'r ail Dŷ.

15. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag amrywiaeth o bynciau yn Atodlen 7, Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

16. Mae'r pynciau yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) -

Addysg, hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol a chorfforol o dan baragraff 5 (Addysg a hyfforddiant); gwasanaethau tân ac achub o dan baragraff 7 (Gwasanaethau tân ac achub a diogelwch tân); darparu gwasanaethau iechyd, gan gynnwys gwasanaethau meddygol, deintyddol, offthalmig, fferyllol a chyfleusterau a gwasanaethau ategol, a threfnu ac ariannu'r gwasanaeth iechyd gwladol, o dan baragraff 9 (Iechyd a gwasanaethau iechyd); gwasanaethau a chyfleusterau trafnidiaeth o dan baragraff 10 (Priffyrdd a thrafnidiaeth), Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion o dan baragraff 12 (Llywodraeth leol) yn Rhan 1 o Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

17. Byddai'r darpariaethau, felly, yn berthnasol i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n ymwneud â'r pynciau hyn yn cynnwys: Gwasanaethau Tân ac Achub, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Awdurdodau Lleol. Nid yw hon yn rhestr gyflawn.

P'un a yw'n briodol i'r darpariaethau hyn gael eu gwneud, ac a ddylid eu gwneud drwy gyfrwng y Bil

18. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cytuno y dylai'r darpariaethau hyn gael eu gwneud gan ein bod o'r farn y byddant yn achosi rhwyg cymdeithasol, yn arwain at fwy o wrthdaro yn y berthynas rhwng cyflogwyr a gweithwyr, ac yn y pen draw yn tansellio yn hytrach na chefnogi gwasanaethau cyhoeddus a'r economi.

19. Eglurwyd safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil Undebau Llafur mewn Datganiad Ysgrifenedig i'r Cynulliad ar 9 Medi:

<http://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2015/tradeunionbill/?lang=cy>

20. Rwy'n bwriadu cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29.6. Er mwyn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog, bydd y Cynnig yn ceisio cydsyniad Aelodau'r Cynulliad i gynnwys y darpariaethau a amlinellir uchod yn y Bil. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylid rhoi cydsyniad yn yr achos hwn.

Goblygiadau ariannol

21. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o beidio â chydsynio i'r darpariaethau sydd ym Mil y DU.

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Tachwedd 2015